

Cynllunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu yn YDDS

Rhaid (erbyn 2019)

Amlygu pwyntiau allweddol, syniadau mawr a helpu myfyrwyr i weld y cysylltiadau rhwng y pynciau hyn.

Darparu unrhyw daflenni neu sleidiau PowerPoint ar Moodle.

Darparu rhestr o eiriau technegol newydd neu jargon pwnc-benodol.

Ar gyfer cyflwyniadau PowerPoint, defnyddio ffont maint 28+ mewn ffontiau megis Arial, Futura neu Tahoma, mewn lliw gweladwy iawn sy'n cyferbynnu'n amlwg â'r cefndir e.e. du neu las tywyll ar gefndir hufen. Cyfyngu ar gynnwys pob sleid i dri phrif pwynt bwled neu un diagram.

Amrywio lliw y marcwyr a ddefnyddir ar fyrdau gwyn.

Rhoi amser i feddwl fel y gall myfyrwyr brosesu gwybodaeth newydd a ffurfio ymatebion.

Atgoffa myfyrwyr o'r meddalwedd technoleg gynorthwyol sydd ar gael ar gyfrifiaduron mynediad agored y brifysgol: MindView ar gyfer mapio meddwl, Claro ar gyfer darllen o destun i lais. Mae sesiynau Sgiliau Astudio ar gael i ddysgu mwy am y meddalwedd hwn.

Defnyddio un ffordd benodol o gyfathrebu i gyfleu gwybodaeth am y cwrs, megis e-bost, cyfryngau cymdeithasol, wyneb yn wyneb neu hysbysiadau Moodle.

Darparu, lle bo modd, ddulliau lluosog o gyfathrebu ar gyfer cyflwyno cynnwys cwrs.

Gwneud dysgu'n berthnasol trwy wneud cysylltiadau â diwydiant / byd gwaith; cyflwynwyr gwadd; astudiaethau achos a theithiau maes.

Adeiladu ar brofiadau'r myfyrwyr eu hunain a'u cryfderau presennol i annog dysgu adfyfyriol.

Darparu adborth adeiladol ac addysgiadol fel y gall myfyrwyr fonitro'u cynnydd eu hunain a datblygu eu dysgu. Er enghraifft, diffinio meysydd clir ar gyfer gwella.

Dylid (erbyn 2020)

Defnyddio fformatau a gweithgareddau lluosog fel bod myfyrwyr yn cymryd rhan ar wahanol lefelau, e.e. gweithgaredd nad yw'n cael ei hasesu sy'n archwilio dealltwriaeth o ddarlithoedd a gwaith darllen unigolion, yna cynnal dadl/trafodaeth fel y gall myfyrwyr ymarfer defnyddio'r cysyniadau a meddwl yn feirniadol am y pwnc, yna gosod prosiect sy'n dangos sgiliau meddwl lefel uwch, fel cymhwyso cysyniadau i senarios bywyd go iawn.

Caniatáu mynediad i nodiadau darlith/sleidiau 24-48 awr cyn y ddarlith ar gyfer y rhai sy'n cymryd mwy o amser i brosesu gwybodaeth.

Defnyddio enghreifftiau clir i i ddarlunio eich pwyntiau gan osgoi trosiadau cymhleth ac iaith annelwig.

Gwneud disgwyliadau cwrs yn glir a rhoi'r wybodaeth hon ar lafar ac ar daflen.

Darparu amryfal fformatau cyflwyno e.e. traethawd, ffeithlun/poster, cyflwyniad sain, fideo, gyda gwaith ysgrifenedig ategol megis sgript neu werthusiad adfyfyriol o'r modd y gwnaethon nhw gyflawni'r holl feini prawf dysgu.

Rhannu cysyniadau cymhleth a thestun a thasgau hirach yn ddarnau haws eu trin.

Bod yn ymwybodol o wynebu myfyrwyr wrth gyflwyno darlithoedd i sicrhau bod myfyrwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw yn gallu gweld eich wyneb er mwyn darllen eich gwefusau a darllen eich mynegiant wyneb wrth siarad.

Gellid (yn y dyfodol)

Darparu podlediad/recordiad sain o'r ddarlith i'r rhai y mae'n well ganddynt ddysgu trwy wrando neu sydd â nam ar eu golwg.

Darparu fideos sy'n gallu helpu myfyrwyr â nam ar eu clyw, yn ogystal â siaradwyr anffordorol.

Lle bo hynny'n ymarferol, ail-lunio asesiadau presennol i ddarparu nifer o ddewisiadau cwestiwn, sy'n berthnasol i'r un cysyniad craidd ac sy'n arddangos deilliannau dysgu priodol.

Cyfyngu ar y nifer o gwestiynau asesu ar dudalen fel y gall myfyrwyr ganolbwyntio ar un cwestiwn ar y tro.

Rhoi profion ar-lein fel y gall myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol megis dyslecsia ddefnyddio technoleg gynorthwyol i'w helpu i ddeall cyfarwyddiadau a chwestiynau.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'r Tîm Cymorth Dysgu

"UDL is fundamentally about proactively valuing diversity"; (Edyburn, 2010)